

Eich Cyf/Your Ref	
Ein Cyf/Our ref	KE/LD/JH/SR - FPN
Dyddiad/Date	22 Mehefin 2022
Gofynner am/Ask for	John Hodgson
Rhif Cyswllt/Contact No	01978 295570
E-bost/E-mail	ESW@wrexham.gov.uk

Annwyl Riant/Ofalwr

Y wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau presenoldeb ysgolion

Hysbysir rhieni a gofalwyr yn Wrecsam bod Llywodraeth Cymru wedi symud yn ôl i ddefnyddio Rhybudd Cosb Benodedig am ddiffyg presenoldeb yn yr ysgol.

Yn dilyn cyhoeddiad gan Weinidog Addysg a'r Gymraeg, bydd Cyngor Sir Wrecsam yn dilyn y canllawiau i sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad at eu haddysg.

O fis Medi 2022, bydd Rhybuddion Cosb Benodedig yn cael eu hailgyflwyno fel rhan o ystod o ddewisiadau i wella presenoldeb yn yr ysgol. Dim ond pan fydd yn amlwg nad oes rhesymau penodol sy'n atal presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol y cyflwynir Rhybuddion Cosb Benodedig, yn unol â'r cod ymddygiad lleol ar gyfer cyflwyno Rhybuddion Cosb Benodedig am ddiffyg presenoldeb yn yr ysgol. Dim ond ar ôl gwneud pob ymdrech posib i ymgysylltu â rhieni i annog gwelliant mewn presenoldeb a bod y rhain wedi methu y cymerir camau cyfreithiol.


Gofynnwn i'r holl rieni a gofalwyr i weithio gydag ysgolion, gan gyfathrebu unrhyw anawsterau a phroblemau sy'n effeithio ar bresenoldeb eu plentyn yn rheolaidd. Pan fo gwir reswm dros yr absenoldebau, mae'n rhaid trafod y rhain gydag ysgol eich plentyn i sicrhau cydweithio rhwng y rhieni, ysgolion a staff yr Awdurdod Lleol i gynnal presenoldeb da gan yr holl ddisgyblion yn y sir.

Roedd Rhybuddion Cosb Benodedig ar gyfer diffyg presenoldeb ar gael i awdurdodau lleol yn ystod y pandemig, ond roedd Llywodraeth Cymru wedi argymhell na ddylid eu defnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i <https://gov.wales/oral-statement-school-attendance>.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am bresenoldeb mewn ysgolion gan ysgol eich plentyn neu Dîm Gwaith Cymdeithasol Addysg ar 01978 295570. Mae gwybodaeth am gymorth lles ar gyfer pobl ifanc ar gael yn www.youngwrexham.co.uk.

Yr eiddoch yn gywir



John Hodgson
Rheolwr Cefnogi Addysg